| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **15 Mai 2009** |
| **Teitl :** | **Penodi Aelod Annibynnol Newydd** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Penderfynu ar y broses o benodi** |

**1. Cefndir**

1.1 Bydd aelodau'n cofio iddynt benderfynu gofyn i'r Cyngor gynyddu'r nifer o aelodau annibynnol yn y Pwyllgor Safonau o bedwar i bump er mwyn ei gwneud yn haws i gael cworwm. Bydd hyn yn golygu fod gan y pwyllgor naw o aelodau i gyd, sef yr uchafswm a ganiateir o dan y rheoliadau. Cymeradwywyd yr argymhelliad yma gan Weithgor Cyfansoddiad y Cyngor a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod llawn o'r Cyngor ar 7fed Mai 2009. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhelliad, bydd angen mynd ati i hysbysebu am, a phenodi aelod annibynnol newydd.

**2. Gofynion Statudol**

2.1 Pennir y broses o benodi aelodau i bwyllgor safonau gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r awdurdod hysbysebu am ymgeiswyr mewn o leiaf dau bapur newydd pan fydd angen aelod annibynnol newydd. Y tro diwethaf penodwyd aelodau annibynnol, hysbysebwyd yn y Daily Post, y Cambrian News, papurau grŵp yr Herald ac ym mhapurau bro Gwynedd. Hefyd anfonwyd copi o'r hysbyseb at Glerc yr Ynadon gan ofyn iddo ei ddwyn i sylw ynadon. Derbyniwyd tri chais.

2.2 Bydd panel penodi yn ystyried y ceisiadau ar sail y meini prawf sydd wedi eu gosod gan y Cyngor ar gyfer penodi aelodau annibynnol. Rhaid i'r panel gael dim mwy na pum aelod, yn cynnwys un 'aelod lleyg' ac un aelod o gyngor cymuned. Bydd y panel yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn, a fydd yn gwneud y penodiad.

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o fynd ati i benodi aelod annibynnol newydd.